12/11/15

Annwyl Gyfaill,

Cynhelir Noson Wobrwyo i ddisgyblion TGAU y llynedd yn ogystal â Blwyddyn 13 llynedd ar **nos Fercher yr 16eg o Ragfyr**. Gwahoddir chi i'r noson a fydd yn **cychwyn am 6:00 y.h** yn Neuadd Fawr yr ysgol.

Bydd y noson yn gyfle ardderchog i ni fel ysgol i wobrwyo disgyblion am eu hymdrechion a'u llwyddiant. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar y noson hefyd.

A fyddech mor garedig â chysylltu â'r ysgol er mwyn ein hysbysu a fyddwch yn mynychu'r noson neu beidio. Braf byddai cael eich cwmni ar y noson arbennig hon. **Gwerthfawrogir ymateb erbyn y 27ain o Dachwedd os gwelwch yn dda.**

Yn gywir,

Nerys Vaughan — Ben Davies

Pennaeth Cyfnod Allweddol 4 — Pennaeth y Chweched

**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE**
**Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU**
**Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601**
**E-Bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk**
**Pennaeth: Mr Simon Davies**